Os hoffech siarad â Swyddog Safonau Masnach am wirfoddoli, ffoniwch Ceri Martin ar 01978- 296066

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd
Is-Adran Safonau Masnach
Ffordd Rhuthun
Wrecsam
LL13 7TY
01978-296060

wrexham COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL wrecsam

Allech chi fod yn wirfoddolwr prynu ar brawf?



Hoffech chi weithio gyda swyddogion safonau masnach a'r heddlu?

Ydych chi rhwng 13½ a 14½ oed?

Mae angen gwirfoddolwyr arnom i geisio prynu sigarets.

Ydych chi rhwng 14½ a 16½ oed?

Mae angen gwirfoddolwyr arnom i geisio prynu alcohol a thân gwyllt.



Mae'r Safonau Masnach yn sicrhau bod busnesau'n gwerthu'n deg ac yn ddiogel yn Wrecsam. Cynghorwn siopau am werthu pethau fel sigarets, alcohol a thân gwyllt i bobl dan oed a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Gweithiwn gyda'r heddlu'n aml.

Fel gwirfoddolwr, gofynnwn i chi fynd i siop a cheisio prynu rhywbeth. Bydd swyddog gyda chi bob amser i sicrhau eich bod yn ddiogel.

Gweithiwn yn hwyr yn y prynhawn tan yn gynnar yn y nos fel arfer. Gallwch wirfoddoli ar eich pen eich hun neu gyda ffrind.

Ni ofynnwn i chi fynd i unrhyw eiddo neu ardal lle bydd rhywun yn debygol o'ch adnabod.

Byddwch yn cael tystysgrif am gymryd rhan ond yn anffodus ni allwn eich talu. Mae gwirfoddoli'n rhoi syniad diddorol i chi o'r hyn a wnawn.